**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 5ed o Hydref

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | John Jones (Cadeirydd), Iddon Edwards, Jess Williams, Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Clifford Williams, Michael Jones (Garndolbenmaen), Richard Williams (Prenteg), Cynghorydd June Jones, Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Enid Egginton (Garndolbenmaen), Sarah Jones (Pentrefelin), Gwilym Evans (Prenteg) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan Buddiant: | Neb |
| 5. | Siaradwr Gwadd: | Croesawyd Steffan Smith, Rheolwr Peilot Ailgartrefi a Fforddiadwyedd i'r cyfarfod i drafod mwy am gynlluniau tai yng ngofal y gymuned.<br><br>Dywedodd bod yna ddiddordeb gan amryw o gymunedau yn Dwyfor a bod ambell i ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu yn barod i ateb i'r galw am dai yng ngofal y gymuned.<br><br>Soniwyd bod yna grantiau ar gael i gefnogi cymunedau; grantiau o fewn y Llywodraeth ei hun a hefyd o'r tu allan.<br><br>Dywed hefyd bod yna gefnogaeth ar gael gan CWMPAS i gymunedau. Mae eu prosiect Cymunedau'n Creu Cartrefi yn cynnig cefnogaeth a chyngor i sefydliadau newydd a phresennol sydd am ddatblygu cynlluniau tai dan arweiniad y gymuned yng Nghymru. Gwefan CWMPAS: Cymunedau'n Creu Cartrefi - Cwmpas<br><br>Mae yna ddigwyddiad tai o dan arweiniad cymunedau Dwyfor yng Nghongl Meinciau, Botwnnog ar y 18eg o Hydref rhwng 1yp a 4yp, ac mae croeso i bawb sydd a ddiddordeb dysgu sut mae eich gymuned yn gallu creu'r cartrefi mae ei angen. |
| 6. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | HP yn cynnig ac MJ yn eilio. |

| | | |
|---|---|---|
| 7. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | <u>Bwlch y Moch</u> – Cafwyd cyfarfod safle aml-asiantaeth ar y 27ain o Fedi i drafod materion traffig a pharcio ym Mwlch y Moch. Yn anffodus, nid oedd cynrychiolaeth o'r Adran Briffyrdd /Traffig yn y cyfarfod. Roedd yn gyfarfod buddiol dros ben. Clerc i anfon y cofnodion ymlaen i Gyngor Gwynedd ac i drefnu cyfarfod arall.<br><br><u>Lon Fudr</u> – Cafwyd cyfarfod safle gyda swyddog (EGO) o'r Uned Draffig, Cyngor Gwynedd ar y 21ain o Fedi i drafod diogelwch y lôn gul a'r gyffordd yma. Mae'r swyddog am archebu arwydd perygl i rybuddio gyrwyr bod cyffordd o'u blaenau. Clerc i gysylltu hefo Priffyrdd Dwyfor i ofyn iddynt am dorri'r coed. Cafwyd eglurhad gan y swyddog mai Categori 5 yw'r lôn yma. Clerc i holi am gatgoriau ffyrdd Dolbenmaen i gyd.<br><br><u>Bryncir</u> – Cafwyd cyfarfod safle gyda'r un swyddog (EGO) o'r Uned Draffig ar y 21ain o Fedi i drafod y mater o loriau yn ceisio mynd fyny'r ffordd gul i gyfeiriad Llecheiddior. Mae'r swyddog am archebu arwydd i roi ochr arall i'r ffordd ar y gyffordd. Nid yw'r arwydd sydd yno yn glir o bosib i loriau sydd yn dod o gyfeiriad Pant Glas.<br><br><u>Gwaith Dŵr, Cwmystradllyn</u> – Dŵr Cymru yn fodlon cael cyfarfod safle ond angen cadarnhad pam er mwyn sicrhau bod y swyddogion perthnasol yn bresennol. Clerc i egluro iddynt mai cyfarfod i drafod gofal gwaith dŵr Cwmystradllyn sydd ei angen oherwydd cyflwr y lle. |
| 8. | Mynwentydd: | Adroddwyd bod mynwent Bethel yn daclus. |
| 9. | Llwybrau Cyhoeddus: | Adroddwyd fod Llwybrau Garn yn daclus a bod giât mochyn wedi ei osod ger Pant y Ffynnon. |
| 10. | Adroddiad Pentrefi: | <u>Pentrefelin</u> – Dim i'w adrodd<br><br><u>Bryncir</u> - Dim i'w adrodd<br><br><u>Penmorfa</u> – Adroddwyd bod y gwaith torri ochr ffyrdd yn cael ei wneud yn wael mewn rhai llefydd, er enghraifft torri o amgylch arwyddion dros dro yn hytrach na'u symud cyn torri.<br><br><u>Golan</u> – mainc yr arosfa bws heb gael ei drwsio. JJ i holi Maldwyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Adroddwyd bod dŵr yn rhedeg i'r ddau gyfeiriad ar hyd lôn Cwmystradllyn a bod cyflwr y ffordd yn dirywio. Adroddwyd fod rhiw Cefn Coch yn beryg. Clerc i gysylltu hefo Priffyrdd.<br><br>Garndolbenmaen – Adroddwyd bod yna goeden helyg yn y lle Coed Cadw yn tyfu dros y ffordd. Clerc i gysylltu gyda Choed Cadw i ofyn wrthynt ei dorri.<br><br>Gofynnwyd os yw'n bosib cael tynnu'r mesurau gostegu traffig yn y pentref rŵan bod y cyfyngiad cyflymder yn 20mya. Clerc i wneud ymholiadau.<br><br>Prenteg – Adroddwyd y Cynghorydd June Jones ei bod wedi derbyn cwyn am ffordd y fynwent ym Mhrenteg. Cynigwyd bod cynghorwyr yn ymweld a'r fynwent unwaith eto ac yn adrodd yn ôl.<br><br>Adroddwyd pryder nad yw'r ffordd gul wrth droi mewn i Prenteg yn unffordd yn unig. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Draffig i weld os yw'n bosib cael gwneud hon yn unffordd.<br><br>Soniwyd y Cynghorydd June Jones nad yw wedi cael ymateb gan y Gwasanaeth Ambiwlans parthed cofrestru y diffib newydd yn Prenteg, Clerc i barhau i geisio cysylltu ag hwy.<br><br>Adroddwyd bod nifer o addewidion gan Priffyrdd heb eu cyflawni – agor draen ger Aberdunant, dŵr yn cronni ar Bont y Traeth a choed yn sylfaen y bont. Clerc i fynd ar ôl y materion yma eto.<br><br>Gadawodd IE y cyfarfod. |
| 11. | Parcio Garndolbenmaen: | Trafodwyd y cynllun llinellau melyn dwbl arfaethedig ar gyfer Garndolbenmaen. Roedd y Cynghorwyr i gyd yn hapus gyda'r cynllun. Clerc i gadarnhau hyn gyda'r Uned Draffig. |
| 12. | Ymgysylltu hefo'r gymuned: | Eglurwyd bod hwn yn rywbeth gafodd ei godi yn y sesiwn hyfforddi gan SJ. Ganfod SJ wedi ymddiheuro, penderfynwyd adael y mater yma tan tro nesaf. |
| 13. | Gohebiaeth: | a. Cyngor Gwynedd – Caead Argyfwng Dosbarth III yn Ynys, Criccieth, ger hawl tramwy cyhoeddus Llanystumdwy, rhif 96 – dyddiad wedi pasio<br>b. Cyngor Gwynedd – Cynllun 20mya – Gorchymyn Terfynol |
| | Gohebiaeth Ychwanegol: | a. Cyngor Tref Pwllheli – hysbysiad o gyfarfod cyhoeddus parthed Ambiwlans Awyr Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | | b. Steffan Smith – Digwyddiad Tai o dan Arweiniad y Gymuned – 18eg o Hydref, 2023<br>c. Unllais Cymru – Cylchlythyr Rhifyn 1<br>ch. Cyngor Cymuned Pistyll – Diwygio Amodau Tai Teg<br>d. Unllais Cymru – Hyfforddiant Medi a Hydref 2023<br><br>Ychwanegwyd<br>dd. Llythyr gan aelod o'r gymuned parthed cais cynllunio NP2/16/464A – trafodwyd cynnwys y llythyr. |
| 14. | Cynllunio: | **Rhestrau:** 04/09, 11/09, 18/09, 15/09<br><br>**Ceisiadau Cynllunio**<br><br>**NP2/16/464A:** Tir yn Isallt Fawr, Golan, Garndolbenmaen, LL51 9AQ. – Dim gwrthwynebiad<br><br>**C23/0735/36/HD:** Tai Isaf, Garndolbenmaen, LL51 9TJ – Dim gwrthwynebiad |
| 15. | Materion Ariannol: | **Ceisiadau am arian:** Neb<br><br>**Monitro'r Gyllideb:** Dim Gorwariant<br><br>**Biliau i'w talu**<br><br>Cyflog Clerc £282.35<br>Ffôn £ 15.00<br>Cyfrifiadur £ 10.00<br>HMRC £ 70.40<br>HSBC Costau £ 9.50<br>Veolia £ 23.60<br><br>**Ychwanegwyd**<br><br>Madog Gardencare £30.00<br><br>**Derbyniadau:**<br><br>Madog Memorials: £50.00<br><br>**Balansau Cyfrifon Banc:**<br><br>**Cadw:** £27,059.31 **Cyfredol:** £16,068.99<br><br>Pendefynwyd i drosglwyddo £14,000 o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif cadw. |

| | | |
|---|---|---|
| 16. | Gohebiaeth i'r Wasg/Wefan: | Siaradwr Gwadd<br>Parcio Garndolbenmaen<br>Parcio Bwlch y Moch<br>Lon Fudr<br>Cynllunio |